

CEFNOGAETH I WEITHWYR RHENG FLAEN Teitlau Mandadol





Beth yw Teitl Mandadol?

Teitl Mandadol yw cyfres o hyfforddiant sy'n bwysig i'r ffordd rydym ni fel cyflogwr yn gweithio. Fel aelod o staff Cyngor Gwynedd bydd disgwyl i bob aelod o staff gwblhau'r hyfforddiant mandadol isod:-

- Diogelu Data
- Cydraddoldeb
- Diogelu
- Ymwbyddiaeth Iaith Gymraeg
- Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Atal 2023
- Iechyd a Diogelwch
- Rhyddid Gwybodaeth

Pam bod hi'n bwysig i'w cwblhau?

Mae'r gofyn i gwblhau'r teitlau Mandadol uchod yn rhan o gytundeb gwaith **pob un ohonom** fel aelodau staff Cyngor Gwynedd.

Sut allwch eu cwblhau?

Gallwch eu cwblhau trwy una'i e-fodiwl neu hyfforddiant traddodiadol (os yw'n bodoli). Gallwch gwblhau'r e-fodiwlau trwy fynd i'r [Porth e-ddysgu](#) ac i gwblhau'r hyfforddiant traddodiadol, gallwch gofrestru trwy'r [Hunan Wasanaeth](#).



Sut mae modd gwirio os ydych wedi eu cwblhau?

Gallwch wirio os ydych wedi cwblhau Teitl Mandadol trwy fynd i'r tab 'Fy Nghyflogaeth, a Fy Rhaglen Dysgu yn yr Hunan wasanaeth. Bydd y cofnod yn cael ei ddiweddarau'n wythnosol.

A oes monitro yn digwydd?

Mae adroddiadau cofnod cwblhau yn cael eu cynhyrchu i'r Adrannau yn ôl y gofyn. Yn ogystal fe all Rheolwyr weld cofnod eu Staff ar yr Hunan wasanaeth (Canllaw).

I bwy allaf ofyn am gymorth ychwanegol?

Am gymorth cyffredinol cysylltwch â :

Dysgu@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych yn cael trafferth mewngofnodi i'r Hunan Wasanaeth, cysylltwch trwy e-bostio :

Desgarchebioncefnogol@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych yn cael trafferth mewngofnodi i'r Porth e-ddysgu, cysylltwch trwy e-bostio:

Dysgu@gwynedd.llyw.cymru



Canllawiau i gynorthwyo gweithwyr rheng flaen i gwblhau'r hyfforddiant Mandadol

Oherwydd diffyg offer ac efallai lefel sgiliau digidol nifer o weithwyr yn y rheng flaen mae angen cymorth/trefniadau ychwanegol i alluogi ambell un allu cwblhau'r hyfforddiant Mandadol.

Dyma gyfundrefn ymarferol i gefnogi'r rheng flaen

Bydd angen i Reolwr/Goruchwyliwr y tîm sydd angen cymorth:

Cam 1: Sicrhau bod gan bob unigolyn sydd am gwblhau'r e-fodiwlau gyfrif ar y Porth e-ddysgu. I wneud hyn, e-bostiwch dysgu@gwynedd.llyw.cymru, gan gynnwys enwau a rhifau cyflog yr holl staff fydd yn yr hyfforddiant.

Cam 2: Gwnewch drefniadau i fenthyg iPads a chlustffonau gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Uchafswm sydd ar gael: 6

Cam 3: Trefnwch amser ac ystafell (tawel a chyfforddus) priodol i'r unigolion gwblhau'r e-fodiwlau ar yr iPads. Sicrhewch oruchwyliaeth a chymorth yn ystod yr hyfforddiant i hwyluso'r dysgu. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau defnyddiol ar y dudalen nesaf



Canllaw

- Ar ôl mynd i mewn i'r iPad gyda'r rhif 679079, cliciwch ar y botwm:



- Yna i fewngofnodi i mewn i'r Porth e-ddysgu, rhwch eich rhif cyflog a'r cyfrinair cyn clicio ar y botwm arian Mewngofnodi.



Rhif cyflog

Cyfrinair

Choose a language

cy ▼

☐ Cofio'r enw defnyddiwr

Ydych chi wedi anghofio'ch enw defnyddiwr neu gyfrinair?

Mewngofnodi



Canllaw

- Yna cliciwch ar y botwm yma:



- Yna, fe welwch y 8 Teitl Mandadol sydd angen eu cwblhau



- Yna dewiswch pa un yr hoffech ei gwblhau, (Cymraeg neu Saesneg). Gweler esiampl o'r e-fodiwl Diogelu isod.

Diogelu / Safeguarding

Diogelu

Safeguarding

- Dylai pob e-fodiwl gymryd llai na 30 munud i'w gwblhau